Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 23 Ionawr 2020 am 1.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | A Pugh | J A Raynor |
| M Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): S Pritchard, A H Stevens

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child a/ac E J King

---

**125. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw datganwyd buddiannau.

**126. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cabinet a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2020 yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd M C Child yn bresennol.

**127. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaeth Arweinydd y Cyngor unrhyw gyhoeddiadau.

**128. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 129. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 130. Dyfarnu Contract ac awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer ymestyn ac ailfodelu Y G Gwyr.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynllun i ymestyn ac ailfodelu YG Gŵyr yn amodol ar gymeradwyaeth grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru. Ceisiwyd caniatâd hefyd i ddyfarnu'r contract i Dendr Rhif 2 yn amodol ar gadarnhau grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol (Rhaglenni ac Arfarniadau Cyfalaf) er mwyn neilltuo ac awdurdodi ychwanegu cynlluniau newydd at y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r cynllun i ymestyn ac ailfodelu YG Gŵyr yn amodol ar gymeradwyaeth grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru;

2) dyfarnu'r contract i Dendr Rhif 2, yn amodol ar gymeradwyaeth grant a chontract Llywodraeth Cymru;

3) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad ynghyd â'r goblygiadau ariannol, a hynny'n amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

## 131. Dyfarnu Contract ac awdurdodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer adeilad newydd yn lle YGG Tirdeunaw.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cynllun adeilad newydd yn YGG Tirdeunaw yn destun cymeradwyaeth grant a chontract gyda Llywodraeth Cymru. Ceisiwyd caniatâd hefyd i ddyfarnu'r contract adeiladu i Dendr Rhif 2 yn amodol ar gadarnhau grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

Nododd yr adroddiad hefyd y gofyniad i ddiwygio'r dyddiad gweithredu i ymestyn safle YGG Tirdeunaw yn unol â phenodiad y contractwr arfaethedig ac amserlen ddiweddaredig y prosiect, ac y byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn y dyddiad gweithredu gwreiddio ym mis Ionawr 2021, er mwyn ceisio cymeradwyaeth am yr oedi a diwygio'r dyddiad gweithredu.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dyfarnu'r contract ar gyfer gweddill y dyluniad ac i godi adeilad newydd ar gyfer YGG Tirdeunaw ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Heol Gwyrosydd i Dendr Rhif 2 yn amodol ar gymeradwyaeth grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru;

2) Cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad ynghyd â'r goblygiadau ariannol yn unol â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol, a hynny'n amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

**132. Adroddiad Blynyddol Cwynion 2018-19.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad er gwybodaeth a oedd yn adrodd am nifer, natur a chanlyniadau'r cwynion a wnaed yn erbyn yr awdurdod, ynghyd â manylion y gwersi a ddysgwyd a syniadau am wella gwasanaethau.

Paratowyd yr adroddiadau canlynol ar wahân ac ar y cyd â'r adroddiad hwn, ac fe'u hadodwyd at ddibenion gwybodaeth:

- Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;
- Cwynion y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth);
- Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

**133. Y Diweddaraf am y Rhaglen Datblygu Mwy o Gartrefi.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn nodi dyheadau'r cyngor i gyflwyno cartrefi fforddiadwy newydd dros 10 mlynedd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd y cyngor yn gosod targed i gyflwyno 1,000 o gartrefi cyngor newydd trwy'r Cyfrif Refeniw Tai, a 4,000 o gartrefi fforddiadwy eraill fel rhan o'i nod o gyflwyno mwy na 5,000 o gartref fforddiadwy newydd dros y cyfnod rhwng 2021 a 2031;

2) Yn unol â gofynion cyllido grantiau Llywodraeth Cymru, llunnir rhaglen dreigl 3 blynedd o gynlluniau datblygiadau, sy'n nodi lle caiff y cartrefi eu cyflwyno a nodir y bydd unrhyw newidiadau i'r rhagdybiaethau ariannol yn yr adroddiad hwn yn arwain at gynnydd neu leihad yn nifer yr unedau y gall y cyngor eu fforddio;

3) Caiff unrhyw benderfyniadau pellach sy'n berthnasol i'r broses uchod eu dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau, a chaiff cynlluniau datblygu yn y dyfodol eu nodi a'u cymeradwyo trwy adroddiad blynyddol Cyllideb Cyfalaf y Refeniw Tai.

**134. Marchnata Safleoedd Cyfrif Refeniw Tai (CRT) a Chyfle Menter ar y Cyd**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn amlinellu bwriad y cyngor i gyflawni ymarfer caffael i benodi partner neu bartneriaid datblygu er mwyn cyflwyno cynlluniau tai daliadaeth gymysg ar amrywiaeth o safleoedd Cyfrif Refeniw Tai fel cytundeb menter ar y cyd.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd y cyngor yn parhau i gyflawni ymarfer caffael i benodi partner neu bartneriaid datblygu i ddatblygu rhai safleoedd Cyfrif Refeniw Tai;

2) Cyn dechrau'r ymarfer caffael, bydd y cyngor yn ymgymryd â'r diwydrwydd dyladwy sy'n ofynnol;

3) Caiff cefnogaeth gyfreithiol, ariannol a chynllunio addas ei chaffael i gefnogi'r broses yn ôl yr angen;

4) Caiff unrhyw benderfyniadau pellach sy'n berthnasol i'r broses eu dirprwyo i Gyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau.

## 135. Y Diweddaraf am gynnydd blaenoriaethau'r Cyfarwyddiaeth Addysg ar gyfer 2018-2019.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau'r diweddaraf am gynnydd o ran bodloni'r blaenoriaethau amlinellol a nodwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2018-2019 a'r blaenoriaethau amlinellol a nodwyd ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019-2020.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi'r cynnydd.

## 136. Bwriad i gymryd meddiant o 70-72 Heol Alexandra, Gorseinon, Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ystyried a ddylid adfeddu 70-72 Heol Alexandra, Gorseinon o dan Adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion tai. Mae'r tir y cynigir ei adfeddu ar hyn o bryd yn dir gwasanaethau cymdeithasol y cyngor ac ystyrir nad oes ei angen mwyach at y dibenion hyn.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ystyried yr eiddo a nodwyd ar y cynllun yn Atodiad B yr adroddiad fel eiddo nad oes ei angen mwyach at ddibenion y gwasanaethau cymdeithasol;

2) Adfeddu'r eiddo a nodir isod o dan Adran 122 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion tai, sef darparu dwy uned breswyl ar gyfer tai cyngor.

## 137. Gwahardd y cyhoedd: -

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan

Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.**

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 138. Cynigion Datblygu Eiddo'r Cyngor.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflwyno a Pherfformiad adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad manwl ynghylch y prosiect peilot Datblygu Eiddo'n Uniongyrchol a Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol (HWF).

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 1.29 pm

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 23 Ionawr 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 28 Ionawr 2020 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 29 Ionawr 2020 |